## Cysylltu â ni

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein SEP neu gopi o'r cynllun mewn fformat arall, cysylltwch â ni:


**Drwy e-bost: equalities@bridgend.gov.uk**

**Dros y ffôn: 01656 643664**

**Ffôn testun: 18001 01656 643643**

**Drwy ffacs: 01656 668126**

Yn ysgrifenedig: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.


Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar agor rhwng 8.30am a 5.00pm, o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8.30am a 4.30pm dydd Gwener

**Dyma ein trefn gwyno**

2022 2023

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council



ADRODDIAD BLYNYDDOL

# cynllun cydraddoldeb strategol


2022 2023


bridgend.gov.uk

This document is also available in English.


Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council





# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cefndir** | **3** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Gwaith** | **5** |
| **Safonau Byw** | **6** |
| **Iechyd a lles** | **7-8** |
| **Diogelwch a Pharch** | **9** |
| **Cyfranogiad** | **10** |
| **Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu** | **11** |
| **Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIAs)** | **12** |
| **Gwybodaeth Gweithwyr** | **14 - 41** |
| **Ymgysylltu ac ymgynghori** | **41** |



# Cefndir

Nod yr awdurdod yw deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau cydraddoldeb y mae pobl yn eu hwynebu fel bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Ein nod yw sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o bopeth a wnawn a'r gwasanaethau a ddarparwn.

Ein nod yw datblygu ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau cyffredinol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ein helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Ein nod yw prif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn fewnol ac yn allanol.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 y cyngor gan y Cabinet ar 10 Mawrth 2020, gyda'r chwe amcan strategol canlynol::

| | Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni/ei gefnogi? |
|---|---|
| **Amcan 1:** **Addysg** | Dylai pawb sy'n cael mynediad at addysg beidio â dioddef gwahaniaethu, bwlio a cham-drin mewn lleoliadau addysgol. |
| **Amcan 2:** **Gwaith** | Hyrwyddo gweithlu mwy cynhwysol a gwella cyfranogiad, lles a chyfleoedd i ddatblygu ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. |
| **Amcan 3:** **Safonau byw** | Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol drwy ystyried effaith unrhyw newidiadau polisi neu benderfyniadau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. |
| **Amcan 4:** **Iechyd a Lles** | Cefnogi a hyrwyddo iechyd meddwl a chorfforol da yn ein cymunedau a'n gweithlu a darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol |
| **Amcan 5:** **Diogelwch a pharch** | Sicrhau bod gan bobl yn ein cymunedau fynediad at wasanaethau sy'n eu cefnogi i fyw heb ofni trais neu gamdriniaeth, a chael eu trin â pharch. |
| **Amcan 6:** **Cymryd rhan** | Annog pobl a chymunedau i gymryd rhan ac ymwneud â materion sy'n bwysig iddynt a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. |

Yn dilyn hyn, buom yn gweithio gydag amrywiaeth o reolwyr allweddol ar draws yr awdurdod i ddatblygu'r 58 cam gweithredu i ategu'r chwe amcan hyn.

Fe wnaethom ymgynghori â'r cyhoedd a grwpiau cydraddoldeb ar y camau hyn a rhannodd 647 o gyfranogwyr eu safbwyntiau â ni.

Yn dilyn hyn, gwnaethom ddatblygu ein cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet.

Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch reolwyr gwasanaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni yn eu meysydd gwasanaeth. Bydd y tîm Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu (sy'n gyfrifol am yr agenda cydraddoldeb) yn sicrhau bod cynnydd a diweddariadau rheolaidd yn cael eu hadrodd i Bwyllgor Cabinet y cyngor ar Gydraddoldeb a bod adborth yn cael ei roi i bartneriaid, grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.





# Cyflwyniad

**Dyma ein trydydd adroddiad blynyddol ar gyfer y cynllun blynyddol strategol hwn.**

I baratoi'r adroddiad hwn, casglwyd data o'r meysydd gwasanaeth gan ddiweddaru'r cynnydd o ran cyflawni eu priod amcanion. Mae data a ddarperir gan feysydd gwasanaeth a phartneriaid yn cynnig ffordd barhaus o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion a'n camau gweithredu.

## Cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion yn ystod 2022/23

Gellir crynhoi'r cynnydd allweddol o dan ein saith amcan fel a ganlyn:

## Addysg

- Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru, a chyhoeddi canllawiau dilynol yn ymwneud â chyfrifoldebau ysgolion dros arferion bwlio, mae hyn bellach wedi'i ddatganoli i leoliadau unigol. Ar ben hynny, mae data sy'n ymwneud â bwlio hiliol yn cael ei adrodd yn uniongyrchol i flwch post y Tîm Cydraddoldeb ac yn cael ei adrodd i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet bob blwyddyn.
- Mae'r adnoddau a'r dysgu proffesiynol a ddatblygwyd gan Gonsortiwm Canolbarth y De i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a Cynefin yn cyd-fynd â chanfyddiadau ac argymhellion gweithgor Llywodraeth Cymru.
- Mae CSC yn darparu rhaglen ddysgu broffesiynol i gefnogi addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a 'cynefin'. Mae'r rhaglenni dysgu proffesiynol hyn ar gael i bob ysgol.
- Mae CSC yn gweithio mewn partneriaeth â Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) i sicrhau bod dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i bob ysgol.
- Os oes gan ysgolion angen penodol a bod angen cymorth mwy dwys arnynt, gellir trefnu hyn drwy'r partner gwella ysgol.
- Mae CSC yn darparu adnoddau ac yn cyfeirio ysgolion at adnoddau pellach y gall ysgolion ac ymarferwyr eu defnyddio i gefnogi addysgu'r themâu hyn.



## Gwaith

- Mae nifer o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi cael eu hyrwyddo fel diwrnod ymwybyddiaeth o awtistiaeth, diwrnod rhyngwladol menywod ac ati. Mae rhestr o ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig wedi cael ei datblygu a bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo.
- Mae gweithwyr wedi cael eu hannog i ddarparu a diweddaru eu manylion cydraddoldeb personol eu hunain er mwyn helpu i fonitro cydraddoldeb y gweithlu. Anogir hyn hefyd wrth gyfathrebu ar faterion cydraddoldeb.
- Mae'r cyngor yn parhau i adrodd yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sy'n fesur cydraddoldeb statudol o'r gwahaniaeth yng nghyflog cyfartalog dynion a menywod, beth bynnag fo'u gwaith, ar draws y sefydliad. Mae'n wahanol i gyflog cyfartal, sy'n cymharu sut mae dynion a menywod yn cael eu talu am gyflawni'r un rolau neu rolau tebyg.
- Parhaodd y cyngor i wneud cynnydd o ran penodi prentisiaid, gyda 29 yn cael eu penodi yn ystod 2022-23.
- Mae'r cyngor hefyd wedi penodi 5 o raddedigion i gefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Mae'r cynllun gweithredu Hyderus o ran Anabledd wedi cael ei gwblhau, gyda'r statws wedi'i gytuno tan fis Tachwedd 2023. Wrth symud ymlaen i 23/24 y bwriad yw y bydd y statws yn cael ei adnewyddu.
- Mae'r holl fodiwlau e-ddysgu sy'n ymwneud â chydraddoldeb wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru.
- Mae'r Gweithdy Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys Rhagfarn Ddiarwybod, Meddwl Critigol ac Anableddau Cudd. Cynhaliwyd tri gweithdy gyda 24 o gynadleddwyr yn bresennol.
- Yn ystod 2022-23, cynhaliwyd tri gweithdy ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth gyda 34 o gynrychiolwyr yn bresennol.
- Mae'r gwaith yn parhau gyda Stonewall i ddarparu hyfforddiant LGBT+ i staff, gyda dau weithdy'n cael eu cynnal, a 12 o gynrychiolwyr yn bresennol yn ystod 2022-23
- Mae atgyfeiriadau i a gan ddarparwyr eraill yn parhau wrth i Gyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr frysbennu cleientiaid i'r gwasanaeth gorau i ddiwallu eu hanghenion o'r ystod eang o ddarpariaeth ar draws y sir.
- Mae gwaith partneriaeth yn gynhyrchiol, gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyfeirio 44% o'r holl atgyfeiriadau: 1342 o bobl i mewn i Gyflogadwyedd sy'n dyst i gryfder y berthynas. Mae atgyfeiriadau hefyd rhwng Cyflogadwyedd a Cymru'n Gweithio, a chydweithio i ddatblygu ffeiriau swyddi a gweithgareddau ymgysylltu eraill. Cynhaliwyd Digwyddiad Hyfforddi yn Nhŷ Carnegie i hyrwyddo'r amrywiaeth o hyfforddiant am ddim sydd ar gael gan amrywiaeth o ddarparwyr sy'n gweithredu yn y sir ac sy'n cefnogi pobl i ennill sgiliau er mwyn iddynt allu cael swydd neu gael swydd well.





CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Safonau byw

- Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys tlodi fel nodwedd warchodedig yn unol â'r ddyletswydd statudol.
- Roedd y codiad cyflog ar gyfer mis Ebrill 2022 wedi cael effaith gadarnhaol ar 1,018 o weithwyr ar radd 1 a gradd 2, ac roedd 88% ohonynt yn fenywod.
- Ym mis Mawrth 2022, daeth y cyngor yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig, yr ail awdurdod lleol yng Nghymru i gael ei ardystio gan y Living Wage Foundation.
- Mae hyfforddiant ar weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i aelodau'r staff. Mae tudalen benodol ar y Fewnrwyd hefyd y gall staff gyfeirio ati i gael arweiniad ar unrhyw adeg.
- Parhaodd Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol (Bwyd a Hwyl) i gael ei chynnal dros ddau safle yn ystod haf 2022 ac roedd 71 o blant rhwng 8 ac 11 oed wedi elwa. O'r plant hyn roedd 51% yn ferched ac roedd 49% yn fechgyn. Roedd gan 11% o'r rhai a fynychodd Anghenion Dysgu Ychwanegol.



# Iechyd a Lles

- Mae Iechyd a Lles wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf drwy ddatblygu a lansio'r adnoddau canlynol ar gyfer gweithwyr:
    - Newyddion Hyb Iechyd,
    - Tudalen gwell iechyd a lles ar y fewnrwyd
    - Adnoddau iechyd a lles a thaflen cod QR
- Mae gwaith partneriaeth yn parhau gyda Bwrdd Iechyd CTM a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu a hyrwyddo adnoddau.
- Mae protocol y menopos wedi cael ei gymeradwyo a'i lansio. Mae taflenni ar gael i reolwyr a staff ac mae sesiynau hyfforddiant Menopos yn cael eu cynnal.
- Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r protocol Iechyd a Lles wedi cael ei hyrwyddo drwy negeseuon staff a thrwy gyfarfodydd yr uwch dîm rheoli fel ffynhonnell cymorth i staff.
- Mae gweithwyr wedi defnyddio amrywiaeth o gyrsiau i helpu i gefnogi a/neu reoli llesiant meddyliol: Yn ystod 2022/23 darparwyd cyfanswm o 27 o gyrsiau i 171 o weithwyr. Darparwyd rhai yn fewnol gan gynnwys Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Ymwybyddiaeth Ofalgar a Chydnerthedd tra bod eraill yn cael eu darparu mewn partneriaeth drwy adnoddau Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF).
- Adnoddau ychwanegol ar iechyd a lles a lansiwyd yn ystod 2022/23: mae gan staff gyfoeth o wybodaeth ac adnoddau cefnogol ar amrywiaeth eang o faterion iechyd a lles.
- Mae negeseuon staff wythnosol yn parhau i gyfeirio gweithwyr at gymorth ac adnoddau amrywiol ar amrywiaeth eang o faterion iechyd a lles.
- Dangosodd yr arolwg staff blynyddol fod gan weithwyr ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn rhwydweithiau ar gyfer iechyd meddwl, gofalwyr a'r menopos.
- Mae drafft cyntaf o'r protocol gofalwyr wedi cael ei ddatblygu a bydd hwn yn cael ei gyflwyno a'i flaenoriaethu yn y flwyddyn i ddod.
- Mae rhaglen Super Agers yn cefnogi oedolion hŷn i fod yn weithgar yn y gymuned ac mae wedi datblygu dull rhanbarthol dan arweiniad Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhaglen wedi cael ei chydnabod fel Partneriaeth Esiampl Bevan sy'n gweithio gyda Shout, y fforwm pobl hŷn a chysylltiad â Chymunedau Oed-Gyfeillgar.








- Ers llacio'r cyfyngiadau, mae pyllau nofio wedi perfformio'n dda gyda chyfleoedd am ddim i blant a phobl ifanc a hefyd i bobl 60 oed a hŷn. Mae'r rhaglen Teimlo'n Dda am Oes wedi cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr ac mae rhaglenni lles gofalwyr newydd wedi cael eu datblygu. Mae'r cynlluniau Mynediad i Hamdden a Hynt wedi cefnogi mynediad cost isel a di-gost at hamdden a diwylliant i'r rhai mwyaf agored i niwed.
- Mae'r rhaglen Caru Cerdded yn cefnogi oedolion hŷn i fod yn gorfforol weithgar yn agos i'w cartrefi gyda grwpiau cerdded dan arweiniad gwirfoddolwyr a llwybrau dan arweiniad hyfforddwr.
- Mae rhaglen Chwaraeon Anabledd Cymru wedi cael ei chefnogi drwy gydol y flwyddyn gyda swyddog penodol ar waith. Bydd hyn yn newid yn ystod 2023-24 wrth i Chwaraeon Anabledd Cymru ddatblygu dull gweithredu mwy rhanbarthol.
- Ers llacio'r cyfyngiadau, mae clybiau a grwpiau wedi ailddechrau ac wedi dangos twf, ac mae gwaith mewn partneriaeth â Grŵp Rhwydwaith Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr (BING) wedi cefnogi amrywiaeth ehangach o weithgareddau cymunedol. Mae hefyd wedi helpu i ddarparu hyfforddiant ar draws y sir i grwpiau sy'n ceisio bod yn fwy cynhwysol. Mae sesiynau dŵr penodol wedi cael eu datblygu ar gyfer anableddau ac amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc hefyd. Mae dull rhanbarthol ar draws Cwm Taf Morgannwg yn datblygu mewn partneriaeth ag iechyd i gefnogi atgyfeiriadau i gyfleoedd cymunedol.
- Mae asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chynllun gweithredu wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn a'u cymeradwyo gan y Cabinet. Mae gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned wedi parhau i gefnogi cyfleoedd gwyliau am ddim i blant a phobl ifanc. Datblygwyd cyfleoedd penodol hefyd i gefnogi anghenion amrywiol gan gynnwys anableddau, plant sydd â phrofiad o ofal a gofalwyr ifanc. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn Haf o Hwyl wedi galluogi gwaith partneriaeth newydd gyda grwpiau cymunedol ac yn enwedig grwpiau ieuenctid. Mae rhaglenni Gwaith Chwarae Gwyliau wedi cefnogi ymyriadau wedi'u targedu. Mae Halo Leisure wedi cefnogi cyfleoedd am ddim drwy gydol y flwyddyn ac mae Awen wedi darparu rhaglenni llyfrgell ac amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol.



## Diogelwch a pharch

- Mae gwybodaeth i Ddinasyddion yr UE sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda dolen at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) Llywodraeth y DU ar gael ar wefan y Cyngor. Y dyddiad cau ar gyfer y rhan fwyaf o Ddinasyddion yr UE oedd mis Mehefin 2021, ond gellir cyflwyno ceisiadau o hyd mewn rhai amgylchiadau.
- Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Heddlu De Cymru i fonitro tensiynau sy'n gysylltiedig â Brexit, gan gynnwys cyfrannu at adroddiadau Digwyddiadau Tensiwn Cymunedol lleol pan fo angen. Mae tensiynau sy'n gysylltiedig â Brexit wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Rydym yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol a chydraddoldeb yn Fforwm Cydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr (BCCEF). Mae cynrychiolwyr o bob rhan o'r gymuned sy'n cynrychioli ystod eang o sefydliadau yn cyfarfod bob chwarter i rannu arferion, cael sesiynau briffio a hyfforddiant ar y cyd. Gwahoddir pob aelod i rannu gwybodaeth am BCCEF gyda sefydliadau eraill gyda'r nod o gynyddu aelodaeth a chynrychiolaeth.
- Rydym yn parhau i gefnogi digwyddiadau Pride. Mae'r swyddog Cydraddoldeb wedi mynychu digwyddiadau ac rydym wedi hyrwyddo'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol eraill fel rhan o'n hymrwymiad i fforwm Cynghorau Balch. Mis Hanes LGBTQIA+ Mae Cynghorau Balch hefyd wedi gweithio gyda'i gilydd eleni i greu digwyddiad ar-lein 'tu ôl i'r lens' i hyrwyddo ymwybyddiaeth.
- Darparwyd sesiwn wybodaeth ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb gan Gymorth i Ddioddefwyr i bartneriaid allanol ar draws y rhanbarth, gan gynnwys i'n grwpiau cymunedol a'r sector gwirfoddol. Rydym yn parhau i hyrwyddo llwybrau cymorth i ddioddefwyr troseddau casineb drwy gyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau ymgysylltu.
- Trefnir byrddau codi ymwybyddiaeth gan ein tîm Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) mewn lleoliadau allweddol ar draws y sir, ddwy neu dair gwaith y mis, i godi ymwybyddiaeth ac annog adrodd ar holl flaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gan gynnwys Troseddau Casineb.
- Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, digwyddiadau casineb a gwahaniaethu. Er enghraifft, gweithio gyda phartneriaid lleol fel Coleg Pen-y-bont ar Ogwr i gydlynu prynhawn ffilm i fyfyrwyr, hyrwyddo deunydd am ddim ar droseddau/digwyddiadau casineb a'r llwybrau cymorth sydd ar gael.
- Rydym yn parhau i rannu gwybodaeth drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o droseddau/digwyddiadau casineb a sut i gael gafael ar gymorth drwy Gymorth i Ddioddefwyr a Heddlu De Cymru. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb mis Hydref 2022, fe wnaethom hyrwyddo Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru Gyfan drwy'r cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo'r gweminarau a drefnwyd gyda phartneriaid allweddol.
- Er bod Mis Hanes Pobl Dduon wedi cael ei hyrwyddo bob blwyddyn, mae rhagor o waith yn cael ei wneud i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dathlu.







## Cyfranogiad

- Mae'r tîm ymgynghori'n trafod yr angen am arolygon ieuenctid hawdd eu darllen gyda'r holl wasanaethau ac yn parhau i weithio gyda Rhoi Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr a'r cyngor ieuenctid i ddatblygu a hyrwyddo ymgynghoriadau ieuenctid ac ymgynghoriadau hawdd eu darllen.
- Mae llwyfan ymgysylltu digidol newydd wedi cael ei roi ar waith i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau'r cyngor. Mae digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb hefyd wedi dechrau dod yn fwy rheolaidd yn dilyn pandemig Covid.
- Mae trosolwg cyflawn wedi cael ei gynnal ar sut mae'r panel dinasyddion yn cael ei reoli. Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar ffyrdd gwell o ddefnyddio'r llwyfannau cyfathrebu ac ymgysylltu digidol i reoli tanysgrifiadau, cynhyrchu cylchlythyrau a diweddariadau a chynyddu nifer y tanysgrifwyr/aelodaeth.
- Mae gwybodaeth a digwyddiadau fel PRIDE Cymru, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ac eraill yn cael eu hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol dwyieithog yn ogystal â datganiadau i'r wasg, ac yn fewnol drwy negeseuon wythnosol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogaeth gorfforaethol newydd wrthi'n cael ei datblygu i sicrhau bod pawb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau allweddol am newidiadau sy'n gallu effeithio arnynt.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi hyrwyddo ymgyrchoedd drwy Twitter, Facebook, Instagram a gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| Pythefnos gofal maeth 2020 | Swyddi gofal cymdeithasol - gofalwn.cymru |
| Diwrnod myfyrio | Digwyddiad Menywod Cymru |
| Maethu LGBT – drwy gydol y flwyddyn | Cymorth ieuenctid |
| Casineb yn brifo Cymru – trosedd casineb | Cynnig gofal plant |
| Rhoi gwaed | Profion cymunedol |
| Wythnos awtistiaeth y byd | Cynllun Preswylio yr UE |
| Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia | Wythnos Iechyd Dynion |
| Diwrnod y Lluoedd Arfog | Diwrnod Ymwybyddiaeth y Samariaid |
| Diwrnod Atal Caethwasiaeth | Ramadan |
| Mis Ymwybyddiaeth o Straen | Mis Pride |
| Gorffennaf Di-blastig | Mis Cerdded Cenedlaethol |
| Mis Hanes Pobl Dduon | Wythnos y Ffoaduriaid |
| Wythnos Ymwybyddiaeth o Bobl Ddall a Byddar | Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl |
| Mis Pride | #AnAntiRacistWales |
| Wythnos Gofalwyr | Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl Babanod |
| Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Mis Pride Anabledd |
| Wythnos Ymwybyddiaeth ASB | Eisteddfod |
| Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd | Diwrnod Shwmae Sumae |
| #LGBTplusHM | Cymraeg |
| #RaceEqualityWeek23 | Wythnos Mabwysiadu a Maethu LGBTQ+2023 |
| Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu ar sail Hil | Diwrnod Syndrom Down y Byd |
| Ramadan | #worldsocialworkday |
| Diwrnod Gwelededd Traws | |

## Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cynhaliodd y cyngor 12 ymgynghoriad cyhoeddus:

| |
|---|
| **PSPO** |
| **2030 Sero Net Carbon** |
| **Is-ddeddfau Harbwr Porthcawl** |
| **Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr** |
| **Arolwg Rhanddeiliaid** |
| **Heneiddio'n dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr** |
| **Eiddo Gwag ac Ail Gartrefi** |
| **Ysgol Gynradd Coety** |
| **Polisi Trwyddedu (CIP)** |
| **Cyllideb Flynyddol 2022** |
| **Plant y Lluoedd Arfog** |
| **Ysgol Gyfrwng Cymraeg Porthcawl** |

Mae'r panel dinasyddion yn parhau i dderbyn ymgynghoriadau allweddol. Anfonwyd yr arolygon canlynol at aelodau'r Panel Dinasyddion:

**2030 Sero Carbon Net**

**Ymgynghoriad Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr 2022**

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu â Phanel Dinasyddion rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.





CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)



Mae cyfanswm o 289 o weithwyr wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu AEG hyd yma.

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, mae 20 o weithwyr y Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant AEG (drwy e-ddysgu). Mae 13 o weithwyr eraill wedi cwblhau hyfforddiant AEG (drwy

## Trefniadau caffael



Mae meysydd gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm caffael i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio yn y broses gaffael. Mae rheolau gweithdrefnau contractau yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau sy'n ddarostyngedig i reolau gweithdrefn y contract gynnwys, o leiaf, gymalau sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, Safonau'r Gymraeg a Chaethwasiaeth Fodern. Mae materion cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn y broses gaffael, o gyn-gymhwyso i ddyfarnu contract. Cynhwysir cymal safonau'r Gymraeg mewn contractau lle mae angen cydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio'r Gymraeg.

## Gwybodaeth am Gyflogaeth





Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth am gyflogaeth ar 31 Mawrth 2023 lle'r oedd 5,948 o weithwyr, gan gynnwys y rheini a gyflogir mewn ysgolion.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y data, lle y'i datgelir, ar nodweddion gwarchodedig y gweithlu.

## Cyfrif Pennau a Rhyw

Cyfanswm y cyfrif pennau ar 31.03.23 oedd 5948, fel a ganlyn:





Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cael ei darparu'n wirfoddol gan weithwyr ac mae'r ffigurau canrannol yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael fel canran o'r gweithlu cyfan.

Wrth gymharu â data o 31.03.2022 bu cynnydd o 61 o weithwyr yng nghyfanswm y cyfrif pennau.

Mae Ffigur 1 yn dangos cyfrif pennau y gweithlu yn ôl cyfarwyddiaeth ac ysgolion ac mae'r ffigur 2 cysylltiedig yn sail i'r dadansoddiad o'r rhywiau yn y rhain.

## Canran y Cyfrif Pennau


Ffigur 1







CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL
ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Rhyw yn ôl Cyfarwyddiaeth




Ffigur 2


Mae dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl gwaith llawn amser a rhan amser wedi'i nodi isod ac yn ôl rhyw yn ffigur 3. (mae gweithwyr rhan amser hefyd yn cynnwys staff achlysurol).




Ffigur 3

## Rhaniad llawn amser/rhan amser yn ôl rhyw

Mae cyfansoddiad y rhywiau wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd blaenorol. O'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru (21/22), mae gan y cyngor ganran uwch o weithwyr benywaidd o hyd. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd cyfansoddiad y gweithlu'n amrywio yn ôl cwmpas gwasanaethau mewnol.




## Anabledd

Mae 4.3% o'n gweithlu wedi datgan bod ganddynt anabledd, sy'n cynrychioli cynnydd o 21/22. Mae dros 74% o'r gweithlu wedi datgan nad oes ganddynt anabledd gyda 7.2% yn datgan 'mae'n well gen i beidio â dweud' a 14.4% heb ddatgan.

Mae'r cyngor yn parhau i gynnal a hyrwyddo ei statws Hyderus o ran Anabledd, sydd i fod i gael ei adnewyddu yn ystod 2023/24. Mae'r cyngor a Remploy wedi cydweithio (prif arbenigwr anabledd y DU sydd yn 'trawsnewid bywydau drwy gyflogaeth gynaliadwy'). Mae Remploy yn cefnogi unigolion i ystyried swyddi gwag cynghorau a chafwyd sawl cais llwyddiannus.

Mae swyddi gwag y cyngor yn dal i gael eu cynnwys ar wefan SCOPE (elusen cydraddoldeb anabledd).

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR








## Ethnigrwydd

Mae Ffigur 4 yn dangos ethnigrwydd yn y gweithlu, sef 1.6%. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o'r boblogaeth gan StatsCymru (Rhagfyr 2022) yn dangos bod 3% o drigolion y fwrdeistref sirol yn nodi eu bod o gefndir Lleiafrifoedd Ethnig. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar lefel isel o ymatebion felly ni fyddai'n gynrychiolaeth gywir.

Adroddodd Cyfrifiad 2021 fod 3.3% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi nodi eu bod o gefndir Lleiafrifoedd Ethnig. Ar sail y ffigurau hyn, nid yw ein gweithlu'n cynrychioli'r garfan hon yn ddigonol. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r cyngor wedi bod yn edrych ar opsiynau ynghylch sut i hyrwyddo bod yn gyflogwr amrywiol i gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Ffigur 4




Mae gwefan y cyngor wedi'i gwella drwy hyrwyddo'r cyngor fel cyflogwr da lle croesewir amrywiaeth. Rhoddwyd sylw arbennig wedi cael ei roi i dudalen lanio recriwtio'r cyngor i ddenu ceisiadau o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig fel rhan o ymrwymiad y cyngor i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar draws pob lefel o'r sefydliad.

Fel awdurdod lleol, rydym yn un o 900 o sefydliadau ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i Addewid Dim Hiliaeth Cymru. A thrwy hynny rydym wedi cytuno i gymryd safiad yn erbyn hiliaeth a hyrwyddo gweithle a chymdeithas fwy cynhwysol a chyfartal sy'n rhoi'r hawl i bob unigolyn yng Nghymru deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.


Bydd yr addewid gwrth-hiliaeth yn cael ei hyrwyddo ar draws y cyngor i sicrhau bod holl weithwyr y cyngor yn ymwybodol o'u dyletswyddau mewn perthynas â chynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

## Proffil Oedran

Ar hyn o bryd mae oedran cyfartalog y cyngor yn 45, gyda'r nifer fwyaf o weithwyr (1678) o fewn y grŵp oedran 46-55.

Mae 1836 o weithwyr yn 55 oed a hŷn, sy'n golygu bod 30% o'n gweithlu, ar 31 Mawrth 2023, yn gallu ymddeol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Ffigur 5











## Rhywioldeb

Mae Ffigur 6 yn dangos bod y rhan fwyaf o weithwyr wedi categoreiddio eu hunain yn heterorywiol, gyda 38% o'n gweithlu heb ddatgelu eu gwybodaeth bersonol sensitif ac roedd yn well gan 2.5% o weithwyr beidio â dweud. Mae'n bwysig nodi nad yw adrodd ar y wybodaeth hon yn ofyniad gorfodol.

Ffigur 6







## Statws Priodasol

Mae manylion statws priodasol gweithlu'r cyngor i'w gweld isod. Mae 84% o'r gweithlu wedi datgan eu statws. Mae 42% o'r rheini'n briod, gyda 24% yn sengl. Mae hyn yn bennaf yr un fath â blynyddoedd blaenorol.

Ffigur 7




## Crefydd a chred

Mae Tabl 1 isod yn dangos gwahanol grefyddau/credoau'r gweithlu. Cristnogaeth yw'r mwyaf yn y cyngor – mae'r Eglwys yng Nghymru ar 12%. 12%. Fodd bynnag, mae 41% o'r gweithlu naill ai heb ddatgan neu wedi dewis peidio â dweud beth yw eu crefydd a/neu eu cred.

| Crefydd/Cred | Nifer y Gweithwyr | % y Gweithlu |
|---|---|---|
| **Agnostig** | 224 | 4% |
| **Anffyddiwr** | 268* | 5% |
| **Baha'i** | * | 0% |
| **Bwdhydd - Hinayana** | * | 0% |
| **Bwdhydd - Mahayana** | * | 0% |
| **Cristion – Anglicanaidd** | 38 | 1% |
| **Cristion – Eglwys Loegr** | 248 | 4% |
| **Cristion – Yr Eglwys yng Nghymru** | 719 | 12% |
| **Cristion - Uniongred** | 71 | 1% |
| **Cristion - Protestant** | 181 | 3% |
| **Cristion – Catholig** | 250 | 4% |
| **Hindŵaeth** | 9 | 0% |
| **Islam - Sunni** | 8 | 0% |
| **Iddewiaeth - Diwygiedig** | * | 0% |
| **Mwslim** | * | 0% |
| **Taoaeth** | * | 0% |
| **Unrhyw grefydd neu gred arall** | 69 | 1% |
| **Dim Crefydd** | 1391 | 23% |
| **Dewis peidio dweud** | 180 | 3% |
| **Heb Ddatgan** | 2280 | 38% |






## Beichiogrwydd a Mamolaeth

Yn ystod y flwyddyn 2022/23, mae 195 o weithwyr wedi cael absenoldeb mamolaeth ac mae 26 wedi cael absenoldeb tadolaeth.

## Cyfrifoldebau Gofalu

Mae Ffigur 8 yn dangos nifer y gweithwyr sydd wedi nodi eu bod yn ofalwyr.

Ffigur 8




Mae canran y gweithlu cyfan sy'n nodi eu bod yn ofalwyr wedi cynyddu ychydig ers y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod mis Mehefin 2022, cafodd cyfathrebiadau eu cyhoeddi yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwasanaeth Lles Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â gofyn i'r gweithlu ddiweddaru eu tab gwybodaeth sensitif mewn perthynas â bod yn ofalwr. Ym mis Medi 2022 cafodd grŵp staff gofalwyr newydd ei ffurfio ac mae un cyfarfod wedi cael ei gynnal. Bydd y grŵp hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi gofalwyr newydd yn ystod y flwyddyn i ddod.



## Yr Iaith Gymraeg

Dengys Tabl 2 nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg yn ein gweithlu.

Tabl 2

| Disgrifiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Siarad Cymraeg** | **1517** |
| **'Ychydig'** | 1073 |
| **'Gweddol Dda'** | 163 |
| **'Rhugl'** | 281 |

| Disgrifiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Darllen Cymraeg** | **1579** |
| **'Ychydig'** | 1107 |
| **'Gweddol Dda'** | 194 |
| **'Rhugl'** | 278 |

| Disgrifiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Ysgrifennu yn Gymraeg** | **1343** |
| **'Ychydig'** | 915 |
| **'Gweddol Dda'** | 169 |
| **'Rhugl'** | 259 |

## I roi hyn yn ei gyd-destun:

### Dywedodd 18.04%
o weithlu'r cyngor eu bod yn gallu siarad Cymraeg 'ychydig'

### Dywedodd 2.74%
eu bod yn gallu siarad Cymraeg 'gweddol dda'

### Dywedodd 4.72%
eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 'rhugl'

### Dywedodd 18.61%
o weithlu'r cyngor eu bod yn gallu darllen Cymraeg 'ychydig'

### Dywedodd 3.26%
eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn 'weddol dda'

### Dywedodd 4.67%
eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn 'rhugl'

### Dywedodd 15.38%
o weithlu'r cyngor eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg 'ychydig'

### Dywedodd 2.84%
eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn 'weddol dda'

### Dywedodd 4.35%
eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn 'rhugl'








Mae'r arolwg poblogaeth blynyddol yn dangos canran y boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru gyfan sydd â sgiliau Cymraeg, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

| | Siarad Cymraeg | Darllen Cymraeg | Ysgrifennu yn Gymraeg | Deall Cymraeg llafar |
|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **22.8%** | **22.8%** | **22.8%** | **22.8%** |
| **Cymru** | **29.5** | **29.5** | **29.5** | **29.5** |

Mae holl ganrannau poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu ers 31 Rhagfyr 2021.

Anogir pob prentis i ennill sgiliau Cymraeg newydd. Mae yna gyrsiau Prentis-iaith ar gyfer prentisiaid sydd ag ychydig neu ddim sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd ac maent yn tynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil yn y gweithle.

Mae cyfleoedd ar gael hefyd i weithwyr ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg sy'n cynnwys 'Cwrs Mynediad' a ddarperir gan Brifysgol De Cymru. Yn ystod y flwyddyn hon mynychodd 12 o weithwyr flwyddyn 1 yr hyfforddiant hwn, tra bod 10 o weithwyr yn cael eu cefnogi i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y gymuned.

Mae nifer o weithwyr (76) hefyd wedi cwblhau modiwlau E-ddysgu'r cyngor ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a safonau'r Gymraeg yn ystod 2022/23.




# Gweithwyr ar 31 Mawrth 2023 yn ôl Gradd

Rhoddwyd strwythur cyflogau a graddio'r cyngor ar waith ar 1 Medi 2013 ac mae mecanwaith clir a chadarn ar waith ar gyfer gwerthuso graddau cymharol swyddi. Mae hyn yn seiliedig ar rolau a chyfrifoldebau yn hytrach nag unrhyw ffactorau unigol sy'n ymwneud â'r gweithiwr.

Mae Ffigur 9 yn dangos nifer y swyddi yn strwythur cyflogau a graddio'r cyngor. Pan fydd gan weithiwr fwy nag un swydd, bydd yn cael ei gyfrif ar gyfer pob swydd sydd ganddo. (O'r herwydd, ni fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfansymiau eraill yn yr adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar gyfrif pennau)

## Swyddi fesul Gradd

Ffigur 9




Wrth gymharu â 31.03.2022 bu cynnydd yn y rhan fwyaf o raddau, gyda gostyngiad bach o ran athrawon.

Mae Tabl 3 yn dangos y rhyw ym mhob un o'r grwpiau graddio.

Tabl 3

| Gradd | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| **JE graddau 1 – 8 (£20,258 - £28,371) (ar 31.03.2023)** | **4426** | **749** |
| **JE graddau 9 – 10 (£30,151 - £34,723) (ar 31.03.2023)** | **244** | **116** |
| **JE graddau 11 – 16 (£36,298 - £55,590) (ar 31.03.2023)** | **329** | **150** |
| **JNC Swyddogion (£58,876 - £147,024) (ar 31.03.2023)** | **11** | **12** |
| **Soulbury a swyddogion ieuenctid (£23,739 - £69,616) (Soulbury ar 01.09.2021 / ieuenctid ar 01.09.2022)** | **48** | **10** |
| **Athrawon heb gymhwyso, Athrawon, penaethiaid cynorthwyol, dirprwyon a phenaethiaid (£19,412 - £127,000)** | **1092** | **344** |

Ar gyfer rhan nesaf yr adroddiad hwn, bydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfrif pennau ac felly caiff staff eu cyfrif unwaith yn y swydd oriau contract uchaf.




CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL
ADRODDIAD BLYNYDDOL

# Anabledd

Mae Ffigur 10 yn rhoi crynodeb o weithwyr ag anabledd yn ôl gradd. Mae'n dangos bod y rhan fwyaf o'r gweithlu anabl yn perthyn i raddau 1-8.

## Anabledd yn ôl Gradd

Ffigur 10




Ers adroddiad 21/22 bu cynnydd bach ar draws pob gradd gyda Swyddogion JNC ac athrawon yn aros yr un fath.



## Ethnigrwydd

Mae Tabl 4 yn rhoi manylion canran gweithlu'r cyngor yn ôl ethnigrwydd a gradd. Mae nifer y gweithwyr sy'n dod o Leiafrifoedd Ethnig wedi cael eu casglu at ei gilydd oherwydd bod y niferoedd yn isel.

Tabl 4

| Gradd/ Ethnigrwydd | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 53.26% | 5.40% | 7.36% | 0.34% | 0.86% | 16.95% |
| Grwpiau Ethnig | 1.13% | *% | 0.20% | • | 0.00% | 0.18% |
| Dewis peidio | 2.77% | 0.22% | 0.13% | • | 0.00% | 1.51% |
| Heb Ddatgan | 4.91% | 0.15% | 0.13% | • | • | 4.35% |

## Proffil Oedran

Mae Tabl 5 yn dangos canran oedran gweithlu'r cyngor yn ôl gradd.

Tabl 5

| Gradd/ Categori Oedran | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16-25 | 4.19% | 0.17% | *% | 0.00% | 0.12% | 0.87% |
| 26-35 | 10.29% | 0.96% | 1.06% | 0.00% | 0.22% | 5.93% |
| 36-45 | 12.93% | 1.41% | 1.88% | *% | 0.17% | 7.60% |
| 46-55 | 16.76% | 1.87% | 2.62% | 0.20% | 0.29% | 7.04% |
| 56-65 | 15.50% | 1.40% | 2.07% | 0.10% | *% | 1.53% |
| 66+ | 2.40% | *% | 0.17% | 0.00% | *% | *% |





## Rhywedd


Mae Tabl 6 yn dangos dadansoddiad o'r gweithwyr sydd wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol.

Tabl 6

| Gradd/ Rhywioldeb | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 37.81% | 4.56% | 6.46% | 0.29% | 0.74% | 7.73% |
| Deurywiol | 0.42% | 0.00% | *% | 0.00% | *% | 0.10% |
| Dyn Hoyw | 0.24% | *% | 0.12% | 0.00% | 0.00% | *% |
| Lesbiaidd | 0.32% | 0.00% | *% | *% | 0.00% | 0.10% |
| Arall | 0.15% | *% | *% | *% | 0.00% | 0.00% |
| Dewis peidio dweud | 1.53% | 0.15% | 0.40% | 0.00% | *% | 0.39% |
| Heb Ddatgan | 21.60% | 1.09% | 0.79% | *% | 0.10% | 14.63% |

Cedwir gwybodaeth am y nodwedd warchodedig hon ar 59% o'r gweithlu, sy'n well sefyllfa na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r graff isod yn dangos canran y rhai sydd wedi datgan fesul gradd er mwyn cyfeirio ato.

### Cyfradd Datganiad Rhywioldeb yn ôl Gradd Cyflog



## Marital Status

Tabl 7 shows the marital status of the council's workforce by grade, with 87% declaring their marital status.

Tabl 7

| Gradd/Statws priodasol | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priod | 26.18% | 2.93% | 4.59% | 0.30% | 0.39% | 7.82% |
| Partner | 6.84% | 0.52% | 0.89% | *% | 0.10% | 1.50% |
| Partneriaeth Sifil o'r Un Rhyw | 0.12% | 0.00% | *% | 0.00% | 0.00% | *% |
| Wedi gwahanu / Wedi ysgaru | 4.89% | 0.57% | 0.62% | *% | *% | 0.44% |
| Gweddw | 0.50% | *% | *% | 0.00% | 0.00% | *% |
| Sengl | 14.49% | 1.36% | 1.31% | *% | 0.34% | 6.91% |
| Dewis peidio dweud | 0.69% | *% | *% | 0.00% | 0.00% | 0.13% |
| Heb Ddatgan | 8.36% | 0.40% | 0.27% | *% | *% | 6.12% |







## Yr Iaith Gymraeg

O ran y Gymraeg, mae mwyafrif gweithwyr y cyngor sy'n siaradwyr, darllenwyr ac ysgrifenwyr Cymraeg yn perthyn i raddau 1-8.

Tabl 8

| Gradd/Siaradwr Cymraeg | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ychydig | 10.91% | 1.26% | 1.61% | *% | 0.22% | 4.02% |
| Gweddol Dda | 0.96% | 0.10% | 0.27% | *% | *% | 1.36% |
| Rhugl | 2.20% | 0.35% | 0.32% | 0.00% | 0.08% | 1.77% |

| Grade/Welsh Reader | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ychydig | 11.33% | 1.26% | 1.61% | *% | 0.29% | 4.07% |
| Gweddol Dda | 1.34% | 0.15% | 0.30% | *% | *% | 1.43% |
| Rhugl | 2.20% | 0.30% | 0.34% | 0.00% | *% | 1.75% |

| Grade/Welsh Reader | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Swyddogion JNC | Soulbury a Swyddogion Ieuenctid | Athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ychydig | 9.01% | 0.98% | 1.11% | 0.00% | 0.27% | 4.02% |
| Gweddol Dda | 1.14% | 0.13% | 0.32% | *% | 0.00% | 1.23% |
| Rhugl | 2.02% | 0.30% | 0.24% | 0.00% | *% | 1.71% |




## Cyfrifoldebau Gofalu

O'r 289 o weithwyr sydd wedi cadarnhau eu bod yn ofalwyr, mae 3.38% yn perthyn i raddau 1-8 fel y dangosir yn ffigur 11. Mae hon yn sefyllfa ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol.

### Gofalwyr yn ôl Gradd Cyflog

Ffigur 11




## Ymgeiswyr am Swyddi

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, derbyniodd y cyngor 6025 o geisiadau drwy'r system recriwtio Adnoddau Dynol, ar gyfer 1545 o swyddi a gan 3796 o unigolion, yn cynnwys ceisiadau mewnol ac allanol. Nid yw'r data'n cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan rai ysgolion. Mewn rhai achosion, ni wnaeth ymgeiswyr ddatgan gwybodaeth ar gyfer pob nodwedd warchodedig. Lle defnyddiwyd dadansoddiad o ganran, mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm yr ymgeiswyr.








## Rhywedd

### Rhyw'r Ymgeiswyr

Ffigwr 12




## Anabledd

O'r ymgeiswyr a wnaeth gais am swyddi yn y cyngor, nododd 12.43% fod ganddynt anabledd. Nid oedd 4.08% wedi datgan eu statws anabledd gan roi cyfradd datganiad o 92.92%.

Wrth edrych ar y data ar gyfer Ebrill 2022 – Mawrth 2023, roedd 292 o ymgeiswyr wedi cael cyfweliadau a oedd wedi datgan eu bod yn dod o dan y cynllun anabledd. O'r rhain, cynigiwyd penodiadau i 107 gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.




# Ethnigrwydd

Mae 94% o ymgeiswyr wedi datgan eu hethnigrwydd, gyda 87.78% yn dweud bod eu hethnigrwydd yn wyn. Mae dros 5% naill ai wedi dewis peidio â dweud neu heb ddatgan, sy'n gynnydd ar y flwyddyn flaenorol.

## Ethnigrwydd yr Ymgeiswyr

Ffigwr 13





# Rhywedd

Nododd y rhan fwyaf o ymgeiswyr eu bod yn heterorywiol/strêt (84.77%). Roedd yn well gan dros 10% o ymgeiswyr beidio â dweud neu beidio â datgan. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Rhywioldeb Ymgeiswyr

Ffigwr 14









# Statws Priodasol

Roedd y grŵp mwyaf o ran statws priodasol yn sengl (6.51%), ac yna'n briod, ar 33.88%. Mae nifer fach o ymgeiswyr o hyd y mae'n well ganddynt beidio â dweud neu beidio â datgan eu statws priodasol.

## Statws Priodasol

Ffigwr 15





# Cyfrifoldebau Gofalu

Roedd 6.32% o ymgeiswyr wedi datgan eu bod yn ofalwyr. Fodd bynnag, mae dros 6% yn dal i ddewis peidio â dweud neu ddatgan eu statws.

## Cyfrifoldebau Gofalu

Ffigwr 16



## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r tabl isod yn dangos sut y nododd ymgeiswyr eu sgiliau Cymraeg.
Dywedodd 6% eu bod yn gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, a bod 5.4% yn gallu darllen yn rhugl.
Nid oedd gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr unrhyw allu Cymraeg o gwbl, gyda dros 50% yn dweud nad oeddent yn gallu siarad, darllen nac ysgrifennu yn Gymraeg.

| Disgrifiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Siarad Cymraeg** | **43.78%** |
| 'Ychydig' | 33.01% |
| 'Gweddol Dda' | 4.77% |
| 'Rhugl' | 6.01% |

| Disgrifiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Darllen Cymraeg** | **36.30%** |
| 'Ychydig' | 25.79% |
| 'Gweddol Dda' | 5.11% |
| 'Rhugl' | 5.40% |

| Disgrifiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Ysgrifennu yn Gymraeg** | **42.20%** |
| 'Ychydig' | 30.45% |
| 'Gweddol Dda' | 5.66% |
| 'Rhugl' | 6.09% |

## Hyfforddiant i Weithwyr

Mae darpariaeth hyfforddiant staff corfforaethol y cyngor yn cael ei chategoreiddio fel a ganlyn:

- **Hyfforddiant ar ôl mynediad – mae gweithwyr yn gofyn am hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth drwy'r polisi hyfforddiant ar ôl mynediad. Dim ond ceisiadau y mae rheolwyr llinell wedi cytuno arnynt sy'n cael eu hanfon ymlaen at adnoddau dynol ac felly nid yw'n bosibl nodi unrhyw rai a allai fod wedi cael eu gwrthod.**
- **Hyfforddiant wyneb yn wyneb – mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei dargedu at weithwyr ar sail natur y rôl a'r cyfrifoldebau. O'r herwydd, ni wrthodwyd unrhyw geisiadau am yr hyfforddiant hwn.**
- **E-ddysgu – mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant corfforaethol yn cael ei ddarparu drwy e-ddysgu, y gall gweithwyr gael mynediad uniongyrchol ato, yn y rhan fwyaf o achosion.**

Yn ystod 2022/2023 roedd yr holl raglenni hyfforddi yn weithredol gyda rhaglen helaeth o ddarpariaeth yn cael ei chynnig ar-lein. Cwblhawyd y modiwlau e-ddysgu gan 1590 o weithwyr. Lle defnyddiwyd dadansoddiad canrannol, mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gweithwyr sydd wedi ymgymryd ag e-ddysgu (1590).






CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL
ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Rhywedd

Ffigwr 17




## Anabledd

O'r gweithwyr a oedd yn dilyn hyfforddiant, nododd 4.28% (68) fod ganddynt anabledd, gyda 25.79% heb ddatgan, 65.09% yn dweud nad oeddent yn anabl a 3.84% yn dewis peidio â dweud. Mae rhai gweithwyr (1.01%) wedi dewis cynnwys yr opsiwn 'ddim yn hysbys'.




## Ethnigrwydd

Roedd nifer y gweithwyr a oedd yn nodi eu bod yn perthyn i leiafrif ethnig yn 1.26%, sy'n is na'r flwyddyn flaenorol. Mae gweithwyr a nododd eu bod yn wyn yn 87.55%, sydd 4% yn uwch na'r llynedd.

### Ethnigrwydd y Gweithwyr


Ffigur 18




## Proffil Oedran

Roedd y ganran uchaf o weithwyr (27.23%) a oedd yn ymgymryd ag e-ddysgu yn yr ystod oedran o 46-55. Mae hyn yn dangos bod 25.7% o'r gweithlu yn yr ystod oedran hon (1678) wedi ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant corfforaethol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Ffigwr 19









## Rhywioldeb

Yn unol â manylion y gweithlu presennol, mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn perthyn i'r categori Heterorywiol/Strêt gyda nifer fawr o gynrychiolwyr (28.74%) ddim yn datgan.

### Rhywioldeb Gweithwyr

Ffigwr 20





## Statws Priodasol

Yn unol â'r gweithlu, mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr o fewn y statws priodasol, gydag 11.64% ddim yn datgan.

### Statws priodasol y Gweithwyr

Ffigwr 21



## Yr Iaith Gymraeg

Dengys Tabl 10 sgiliau Cymraeg y gweithwyr. O’r 1590 o weithwyr, dywedodd 4.47% eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, 2.33% arall yn gallu siarad Cymraeg yn weddol dda a 22.64% yn dweud eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg.

O’r 1590 o weithwyr, dywedodd 4.47% eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn rhugl, gallai 3.21% arall ddarllen Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 22.08% eu bod yn gallu darllen ychydig yn Gymraeg.

O’r 1590 o weithwyr, dywedodd 4.47% eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, gallai 2.20% arall ysgrifennu Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 17.92% eu bod yn gallu ysgrifennu ychydig yn Gymraeg.

Tabl 10

| Siarad Cymraeg | Gweithwyr | Darllen Cymraeg | Gweithwyr | Ysgrifennu yn Gymraeg | Gweithwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Ychydig | 10.91% | Ychydig | 1.61% | Ychydig | 0.22% |
| Gweddol Dda | 0.96% | Gweddol Dda | 0.27% | Gweddol Dda | *% |
| Rhugl | 2.20% | Rhugl | 0.32% | Rhugl | 0.08% |

## Cyfrifoldebau Gofalu

O blith y 1590 o weithwyr, cadarnhaodd 6.10% eu bod yn ofalwr.


Nid oes unrhyw gofnodion yn yr adran Adnoddau Dynol ynghylch gwrthod mynediad i unrhyw weithiwr at unrhyw fath o hyfforddiant. Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion.

## Datrys a materion disgyblu

Yn ystod 2022/20223 roedd cyfanswm o 19 o faterion datrys a disgyblu. Nid ydym yn gallu datgelu nodweddion gwarchodedig y gweithwyr hyn oherwydd bod swm y data yn rhy fach i’w ddehongli mewn ffordd ystyrlon. Ond nid yw’r wybodaeth hon yn dangos unrhyw achos o bryder.

### Rhyw y Gweithwyr

Ffigwr 22






CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Anabledd

O’r gweithwyr a adawodd y cyngor, nodwyd bod gan 3.97% (31) anabledd, gyda 13.06% heb ddatgan, 76.95% yn dweud nad oeddent yn anabl, 4.99% yn dewis peidio â dweud ac 1.02% yn dewis ‘ddim yn hysbys’.


## Ethnigrwydd

O’r rhai sydd wedi gadael y cyngor, roedd y mwyafrif yn wyn, gyda 2.69% o’r staff a adawodd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

| Ethnigrwydd Ymadawyr | |
|---|---|
| Gwyn | 658 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 10 |
| Du neu Ddu Prydeinig | • |
| Ethnigrwydd Cymysg | • |
| Grŵp Ethnig Arall | • |
| Dewis peidio dweud | 21 |
| Heb Ddatgan | 81 |

### Ethnigrwydd Ymadawyr

Ffigur 23







## Proffil Oedran

Roedd 19.21% o'r rhai a adawodd yn y categori oedran 56-65, gyda 56.33% o'r rhai a ymddeolodd, naill ai'n gynnar neu ar oed ymddeol – yn wirfoddol. Roedd 21.94% o'r rhai a adawodd rhwng 26 a 35 oed. O'r ymadawyr hyn ymddiswyddodd 82.94% o'r cyngor, a gadawodd 16.47% oherwydd bod contractau'n dod i ben.

### Proffil Oed y Gweithwyr

Ffigur 24





## Rhywedd

Fel gydag ardaloedd eraill, roedd y mwyafrif llethol o'r rhai a adawodd yn y categori Heterorywiol / Strêt, gyda 33.29% o staff ddim yn datgan eu gwybodaeth sensitif.

### Rhywioldeb Ymadawyr

Ffigur 25









## Statws priodasol y Gweithwyr

Ar y cyfan, roedd statws priodasol y rhai a oedd yn gadael yn briod neu'n sengl gyda 14.60% yn peidio â datgan y nodwedd warchodedig hon.contractau'n dod i ben.

### Statws priodasol y Gweithwyr

Ffigur 26




## Yr Iaith Gymraeg

Dengys Tabl 12 sgiliau Cymraeg yr ymgeiswyr. O'r 781 o ymadawyr, dywedodd 5.12% eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, gallai 3.07% arall siarad Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 18.82% eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg.

O'r 781 o ymadawyr, dywedodd 5.51% eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn rhugl, gallai 2.69% arall ddarllen Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 18.05% eu bod yn gallu darllen ychydig yn Gymraeg.

O'r 781 o ymadawyr, dywedodd 4.35% eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn rhugl, gallai 2.82% arall ysgrifennu Cymraeg yn weddol dda a dywedodd 16.39% eu bod yn gallu ysgrifennu ychydig yn Gymraeg.

Tabl 12


| Siarad Cymraeg | Ymadawyr | Darllen Cymraeg | Ymadawyr | Ysgrifennu yn Gymraeg | Ymadawyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Ychydig | 147 | Ychydig | 141 | Ychydig | 128 |
| Gweddol Dda | 24 | Gweddol Dda | 21 | Gweddol Dda | 22 |
| Rhugl | 40% | Rhugl | 43 | Rhugl | 34 |

## Cyfrifoldebau Gofalu

Roedd nifer y gofalwyr a adawodd y sefydliad rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 yn 42.

**Cyfrifoldebau Gofalu**

Ffigur 27




## Casgliad

Mae'r cyngor yn parhau i wella'r broses o gasglu data. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar unigolion sy'n dymuno datgelu eu hunaniaeth, sy'n arbennig o sensitif o ran rhai o'r nodweddion gwarchodedig. Mae gweithwyr yn cael cyfle i ddweud 'mae'n well gen i beidio â dweud' sy'n ddata defnyddiol ynddo'i hun.

Gyda hyrwyddo ychwanegol i weithwyr gwblhau eu gwybodaeth bersonol a sensitif drwy system hunanwasanaeth gweithwyr y cyngor, y gobaith yw y bydd y categorïau hyn o 'heb ddatgan' yn lleihau dros y blynyddoedd nesaf.

## Ymgysylltu ac ymgynghori

Ein nod yw cynnwys barn grwpiau cynrychioliadol yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn i ni allu datblygu gwasanaethau hygyrch ar gyfer y cyhoedd a'n gweithwyr.

Mae ymgysylltu yn rhan bwysig o'n gwaith felly rydym yn rhoi prosesau penodol ar waith i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hystyried a bod dimensiynau cydraddoldeb yn cael sylw.

Mae gweithwyr a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r grwpiau nodweddion gwarchodedig yn ymwneud â'r gwaith o gyflawni, gweithredu, monitro a gwerthuso ein hamcanion.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori ar ganlyniad ein gweithgarwch ymgysylltu i ddangos yn glir sut mae pobl wedi dylanwadu ar gynllunio a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.





